

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth y 14eg o Fehefin 2016.

- 1. Presennol:** Catrin Thomas a Hywel James – Cyngor Gwynedd (eitem rhif 3); Barry Bracegirdle, Mark Balaam, Iwan Lloyd Williams – Penygroes; Harry Wyn Owen, D Martin Williams, Peter Thomas – Talysarn; Hefina MW Roberts, OP Huws, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni. / **Ymddiheuriadau:** Dyfed Edwards (Cyngorydd Sir), Justin Davies, Nerys Williams - Penygroes; Sharon Wynne Jones – Talysarn; Ffion Jones – Nantlle; Craig ab Iago – Cyngorydd Sir.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan buddiant.
- 3. Catrin Thomas a Hywel James, Cyngor Gwynedd** – Uwch Roelwr Datblygu Economi a Phrif Lyfrgellydd Cyngor Gwynedd. Cafwyd cyflwyniad gan Catrin Thomas am ymgynghoriad Her Gwynedd a'r adolygiad arfaethedig i'r gwasanaeth lyfrgelloedd yng Ngwynedd. Wynebu toriad o 23% yng nghyllideb stoc llyfrau, ac yn sgil hyn, bydd effaith ar y gwasanaeth. Targed i arbed £102,000. Awgrymiadau yn cael eu cyflwyno i Gabinet y Cyngor fis Medi. Argymelliadau - dim cwtoegi ar y gwasanaeth llyfrgell teithiol; Cwtoegi oriau llyfrgelloedd i gyd ar draws y gwasanaeth i gyd. Awgrymu cael llyfrgell Penygroes yn llyfrgell gymunedol - sef Cyngor Gwynedd yn darparu staff, cytuno ar oriau agor a stoc, a rhywun arall yn gyfrifol am yr adeilad. Argymell cwtoegi oriau o 17 awr i 15 awr yr wythnos, a chael gofod ychydig yn llai na'r hyn ydyw ar hyn o bryd. Perchnogion yr adeilad wedi datgan nad ydynt yn gefnogol o gwtogi oriau. Gofynwyd am farn y Cyngor Cymuned am gadw'r 17 awr, a chais i gyd-ariannu'r rhent - mae bwlch o £1500 y flwyddyn. Mae cymunrodd yn cynnal £3500 y flwyddyn. Wedi i Catrin a Hywel adael cafwyd trafodaeth fer. Gofynwyd i'r Clerc beth fyddai effaith ychwanegu at y Praesept, a chodi i £43,000 neu £48,000 y flwyddyn. Gofynwyd i'r Clerc holi Cyngor Gwynedd beth maen nhw'n rhagweld fydd effaith ar swyddi yn y swyddfeydd a gwasanaeth. Ddim yn cytuno efo'r drip-feed approach', ble mae gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo i'r Cynghorau Cymuned mesul dipyn - mae angen y darlun llawn. Teimlai'r Cynghorwyr fod gweithlu gan Cyngor Gwynedd i gynnal gwasanaethau, a fod y Cyngor Cymuned ddim ond yn lond llaw o wirfoddolwyr.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Mai.** Gwyndaf yn cynnig cywirdeb, a Harry yn eilio.
- 5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Ebyst Nigel Schofield parthed llwybr Tyddyn Agnes. Angen i'r Clerc yrru at Gyngor Gwynedd i resymoli os mai llwybr marchogaeth yw'r llwybr hon ai peidio, gan fod angen cysondeb. Barn y Cyngor Cymuned fod gwell gwneud hon yn lwybr farchogaeth ar ei hyd. Cofeb R Williams Parry - awgrymwyd holi barn i geisio creu grwp ar gyfer sefydlu cronfa - Cymdeithas Hanes Dyffryn Nantlle (John Dilwyn), Angharad Tomos, Swyddog o'r Brifysgol, Adran Ddiwylliant Cyngor Gwynedd, Cyngorydd Sir - ysgrifennu llythyr i'r Gymdeithas Hanes i weld os oes diddordeb.
- 6. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio** - Adrodd yn ol i'r Cyngor. (Cyfarfod cydweithio / Cyfarfod MacPelah). Rhoddodd OP Huws grynoded o'r cofnodion grwp cydweithio. OP Huws am holi mwy am grant i ddefnyddio garej Poveys yn hytrach na'r toiledau cyhoeddus yn y pentref. Pwnc arall a drafodwyd yn y cyfarfod oedd y cysyniad o uno contractau torri mynwentydd a llwybrau y cynghorau cyfagos. Cyfarfod arall wedi ei drefnu at y 14/7; Cyfarfod MacPelah - Mark wedi paratoi dogfen dendro i'w chymeradwyo gan yr is-bwyllgor. Diolchwyd Mark am y cynllun. Gofynnodd am fewnbwn y Cyngor am amodau cyffredinol, trefniadau taliadau, hyd y gontract, amodau angladd ac yn y blaen. Ymateb i Mark gyda sylwadau ymhen wythnos.
- 7. Cynllunio** C16/0442/22/LL – Pennant Bach, Ffordd Cae Duon, Nasareth – dymchwel y ty presennol a chodi ty newydd a modurdy yn ei le. Cymeradwyo.
- 8. Gohebiaeth.**

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion – Boncen Eithin – coeden yn yr afon. Cyngor Gwynedd am glirio'r coed sydd wedi disgyn oddi ar dir Cyngor Gwynedd yn unig; llwybr ger cae pel droed Talysarn - Cyngor Gwynedd yn datgan fod wyneb y llwybr yn foddhaol; baw cwn afon Llyfni - swyddog Cyngor Gwynedd am gadw golwg ar y sefyllfa; cyffordd Nasareth - cyfarfod wedi ei drefnu efo Craig ab Iago; beiciau cwad Dorothea - cael eu gyrru ar dir preifat. Cyngor Gwynedd yn awgrymu cysylltu efo perchnogion y tir; llwybr 84 Bron Haul - derbyn sylw Cyngor Gwynedd; Tipio Gloddfa Glai, Talysarn - Cyngor Gwynedd yn cadw golwg ar y sefyllfa; Arwydd

Llwybr yn Talysarn - wedi ei ddifrodi unwaith eto. Cyngor Gwynedd yn datgan fod y mater wedi ei drosgrwyddo i ddwylo'r heddlu; Llwybr Tyddyn Agnes - y giat wedi ei hagar; Ffordd Haearn Bach - dim ymateb.

*Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon – cyflwyniad.14/6 Er gwybodaeth.

*Gorchymyn Cyngor Gwynedd – Gwahardd a Chyfyngu Aros Amrywiol – deliad trwydded anabl. Darllenwyd y gorchymynion.

*Ardaloedd Asesiad Llesiant Arfaethedig/Sylwadau ar Ardaloedd Cymunedol Gwynedd. Cyfnod sylwadau yn fyr, a'r dyddiad cau wedi pasio. OP Huws wedi cysylltu efo Cyngor Gwynedd i dynnu eu sylw fod y cyfnod ymateb yn annigonol.

*Diwygiadau i'r Cod Ymddygiad – mabwysiadu. Derbyn. Ymateb i Gyngor Gwynedd.

Arall

*Craig ab Iago – Adroddiad. Darllenwyd adroddiad Craig am y mis.

*Caeau Canmlwyddiant. Er gwybodaeth.

*Catalog HAGS ar y bwrdd.

*Parc Cenedlaethol Eryri – Noson gyda Chynghorau Cymuned a Thref – Gorffennaf. Er gwyboath.

* Un Llais – Cyfarfod Pwyllgor Arfon Dwyfor – 15/6/16

* Parc Cenedlaethol Eryri – dyddiadau cyfarfodydd prif bwyllgorau. Er gwybodaeth.

*Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft – Goleuo Ymwthiol. Diweddariad.

*Ymateb Grwp Cynefin – cwyn parcio. Cydnabod derbyn cwyn am barcio peryglus un o'r gweithwyr, ac y byddai'r wybodaeth yn cael ei basio ymlaen.

*Yswiriant y Cyngor – mainc Llanllyfni. Barn y Cyngor yn parhau i fod nad yw'r fainc yn eiddo'r Cyngor Cymuned. Angen ychwanegu mainc mynwent MacPelah at bolisi yswiriant y Cyngor.

9. **Materion Pentrefi.** Penygroes Ar y sgwar ar ochr Tai Eryri - mae tarmac yn dod i ffwrdd oddi ar gyfer BT.

Talysarn Ar y ffordd o Halfway i'r lon Newydd, nid yw'r gwair wedi ei dorri ddigon pell yn ol a mae gweledd yn cael ei amharu.

10. **Llwybrau a Mynwentydd.** Coed celyn - derbyniwyd pris i'w clirio; Chwyn yn y mynwentydd ar hyn o bryd, a chwynion am St Rhedyw - ceisio cysylltu efo contractiwr sydd a chymwyster PA1 a PA6; Gyrru copi arall o lythyr parthed pryniant tir Llanllyfni yn gofrestredig yn y post; Cadarnhawyd fod cae Cwtin wedi ei dorri; Gwerth pedwar bag du o boteli a chaniau wedi eu clirio o Cwtin - hysbysu'r Heddlu fod rhai yn mynd yno i yfed; Weiran lefn yn MacPelah - penderfynwyd derbyn pris Ifan ac Idris, a gofynwyd i Harri ofyn iddynt osod y weiren; Llwybr 115 Llanllyfn dros bont Crychddwr angen ei glirio; Mwsog ar lwybr Capel Hyfrydle i Hen Lon (Cysylltu efo Gerallt Cyngor Gwynedd).

11. **Materion yn ymwed a'r heddlu.**

12. **Materion ariannol.** Ffon/Rhyngwyd Clerc £25; Derbynebaw Clerc. Derbyn.

13. **Cyfrifon y Cyngor 2015-16 i'w cymeradwyo.** Cymeradwywyd cyfrifon y Cyngor. Cymeradwywyd cyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2016 i 2017.

14. **Ceisiadau am arian.** Dim.

15. ***Taenlen i'w chymeradwyo.** Dogfennau gan yr Archwilydd Mewnol.